**<u>Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 10fed Chwefror 2026, yn Neuadd Dihewyd am 7.30pm.</u>**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Lynford Thomas (Cadeirydd yn absenoldeb y Cyng. Haf Hughes), Hywel Ifans, Dan Evans, Euros Davies, Melinda Williams, Glyn Davies, Alan Henson, Wendy Lloyd Lewis

1. **YMDDIHEURIADAU –** Y Cyng. Lyn Williams, Gerwyn Owen, Haf Hughes

2. PERSONOL Dymunwyd gwellhad buan i'r Cyng. Gerwyn Owen yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty'n ddiweddar ac estynwyd cydymdeimlad ar golli ei frawd. Estynwyd cydymdeimlad hefyd â'r Cyng. Lyn Williams ar golli ei fam yn ddiweddar.

3. **DATGELU BUDDION PERSONOL**

4. **CADARNHAU COFNODION 09/12/25**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng. Melinda Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Euros Davies a'u derbyn yn unfrydol.

5. **MATERION YN CODI**
   .
   **14.b Dŵr wrth Eglwys Ystrad (Cyf. 817080) –** Adran y Priffyrdd wedi cynnal archwiliad ar 17 o Ragfyr a'r broblem wedi ei adrodd i Dŵr Cymru.
   **14c. Golau Sryd Cysgod y Gaer. (Cyf. 745116)** Cadarnhawyd bod y golau'n gweithio.

6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR.**
   a. Yn dilyn cais gan Y Cyng. Ceris Jones **penderfynwyd** anfon llythyr at Fwrdd Iechyd Hywel Dda yn datgan ein pryderon am gau'r uned strôc Ysbyty Bronglais cyn ei gyfarfod nesaf ar y 18fed o Chwefror.
   b. Yn dilyn cyfarfod am gyllideb y Cyngor Sir, nododd mai £4.75% fydd y codiad yn y dreth am 2026-27 heb unrhyw doriadau ar wasanaethau a hynny'n well nag a ragwelwyd.
   c. Cadarnhaodd ei bod mewn trafodaethau parhaus gyda'r Cyngor Sir am gyflwr yr hewl rhwng Felinfach a Chiliau Aeron a bydd yn adrodd yn ôl pan ddaw mwy o wybodaeth i law.

7. **ADRODDIAD YR HEDDLU**
   Anfonwyd adroddiad gan PC Liz Jenkins. Ynddo nodwyd nifer o ddigwyddiadau a oedd wedi dod i sylw'r heddlu yn ystod y mis a hefyd cais am wybodaeth parthed achosion o yfed a gyrru yn yr ardal.

**8. CYLLID**

i. Tâl y Clerc Rhagfyr a Ionawr £228.73
ii. Lloyds Banc Ffioedd : 10/11//25 – 9/12/25 **£4.63** (yn cynnwys un siec ac un taliad electroneg)
iii. Lloyds Banc Ffioedd Cyfrif y Cadeirydd 10/11/25 – 9/12/**25 £4.25**
iv. Lloyds Banc Ffioedd : 10/12//25 – 9/01/26 **£6.15** (yn cynnwys 5 siec a 2 daliad electroneg)
v. Lloyds Banc Ffioedd Cyfrif y Cadeirydd 10/12/25 – 9/01/25 **£4.25**
vi. Capel Troedyrhiw Cyfarfod Rhagfyr £10.00

**9. CYNLLUNIO –** dim i'w drafod

**10. PWYLLGOR ARDAL UN LLAIS CYMRU 14/1/26**

Mynychwyd y cyfarfod ar-lein gan Y Cyng. Lynford Thomas a'r Clerc.
Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Lynford Thomas:

i. soniodd am gyflwyniad gan aelodau o Fwrdd Dŵr Cymru am y gwelliannau i'r seilwaith sydd ar y gweill ganddyn nhw dros y blynyddoedd nesa.
ii. nodwyd bod argymhellion ar waith i symleiddio'r broses Audit i Gynghorau bach a hefyd symudiadau i wneud hyfforddiant y Cod Ymddygiad yn ofynnol.
iii. bydd y cyng. Lynford Thomas a'r Clerc yn mynychu cyfarfod ar yr 16eg o Chwefror i gael gwybodaeth am yr hyn fydd yn digwydd yn dilyn y newidiadau i'r ffiniau yn 2027.

**11. CYFARFOD BLYNYDDOL UN LLAIS CYMRU**

Mynychwyd y cyfarfod ar-lein gan y Cyng. Lynford Thomas. Braf oedd nodi bod hwn wedi bod yn gyfarfod positif iawn gyda'r Prif Weithredwr yn nodi bod llais cryfach erbyn hyn gan Un Llais Cymru wrth drafod gyda Llywodraeth Cymru. Nododd hefyd y bydd Cynghorau Cymuned yn cael eu monitro'n fwy agos yn y dyfodol a cheir mwy o fanylion am hyn maes o law.

**12. GWOBR Y GYMUNED.**

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Cyng. Gerwyn Owen, penderfynwyd trafod Gwobr y Gymuned yn y cyfarfod nesa.

**13. GOHEBIAETH**

i. **Derbyniwyd lythyron diolch oddi wrth:**
Kids Cancer Charity am y rhodd o £25
Cronfa Cyfle i Bawb yr Urdd am y rhodd o £50.00
Urdd Ceredigion am y siec o £50.00
Ambiwlans Awyr am y siec o £100.00
ii. **Cyngor Sir Ceredigion: Cyweirnod 714758** – twmpathau cyflymder. Llythyr yn cadarnhau fod y gwaith "o'r diwedd" wedi ei gwblhau.

iii. **Ceisiadau elusennol: Penderfynwyd** trafod y ceisiadau ariannol isod gan bod y digwyddiadau'n cael eu cynnal cyn cyfarfod mis Mehefin: **Cais am Rodd oddi wrth**
Côr Corisma - £100 (Cynigiwyd gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Euros Davies)
Eisteddfod Dihewyd - £125 (Cynigiwyd gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Alan Henson.
Marie Curie Daffodil Appeal - £50 (Cynigiwyd gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Hywel Glyn)

iv. **Llunio Lle.** Rhannwyd gwybodaeth yn atgoffa pawb i gyfrannu at y prosiect Llunio Lle.

## 14. UNRHYW FATER ARALL

a. Nododd y Cyng. Euros Davies bod arwydd i bentre Cribyn ar goll. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir unwaith eto i ofyn am osod arwydd newydd.
b. Ar gais y Cyng. Hywel Ifans, gofynwyd i'r Clerc i gysylltu unwaith eto â'r Cyngor Sir yn nodi pryderon trigolion Dihewyd am y diffyg golau stryd ar yr hewl sy'n arwain at yr Eglwys a'r Capel a'r Neuadd Bentre.

## 15. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

10fed Mawrth 2026 yn Neuadd Felinfach.